# Crynodeb Gweithredol o'r Ddogfen yn Gymraeg

## Crynodeb gweithredol

### Yr ymgyfreitha

Dechreuodd y Cynllun Pensiwn Barnwrol i'r Rhai y Telir Ffi Iddynt (FPJPS) ar 1 Ebrill 2017 yn dilyn penderfyniad ym mis Chwefror 2013 gan y Goruchaf Lys yn *O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [2013] UKSC 6* fod barnwyr y telir ffi iddynt wedi cael eu trin yn llai ffafriol na barnwyr cyflogedig amser llawn perthnasol, gan nad oeddynt wedi bod â hawl i gael pensiwn. Cyfeiriwn at y penderfyniad hwn fel *O'Brien 1*. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer gwasanaeth barnwrol y telir ffi amdano ar neu ar ôl 7 Ebrill 2000 y mae buddion pensiwn dan yr FPJPS yn cronni, sef y dyddiad yr oedd yn ofynnol i'r Deyrnas Unedig drosi Cyfarwyddeb Gwaith Rhan-amser yr UE yn gyfraith ddomestig.

Ym mis Tachwedd 2018, traddododd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ei ddyfarniad yn achos *O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Achos C-432/17)*, gan ddod i'r casgliad fod yn rhaid ystyried gwaith rhan-amser a wnaed cyn dyddiad trosi'r Gyfarwyddeb Gwaith Rhan-amser ar 7 Ebrill 2000 at ddibenion cyfrifo pensiwn ymddeol. Cyfeiriwn at y dyfarniad hwn fel *O'Brien 2*.

Ym mis Rhagfyr 2019, yn achos cysylltiedig *Miller ac eraill v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [2019] UKSC60*, dywedodd y Goruchaf Lys fod y terfyn amser o dri mis dan Reoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000 ar gyfer cyflwyno hawliadau mewn perthynas ag *O'Brien 1* ac *O'Brien 2* yn rhedeg o ddyddiad ymddeol yr hawlydd o bob swydd farnwrol, nid o ddiwedd pob penodiad y telir ffi amdano. Cyfeiriwn at y dyfarniad hwn fel *Miller.*

### Datblygu'r rhwymedi

Mae angen i ni gyflwyno newidiadau i'r FPJPS i unioni'r sefyllfa ar gyfer barnwyr *O'Brien 2* a *Miller*, er mwyn sicrhau bod aelodaeth o'r cynllun ar gael mewn perthynas â gwasanaeth barnwrol cymwys y talwyd ffi amdano ar gyfer cyfnodau cyn 7 Ebrill 2000 (cyn belled â bod y gwasanaeth wedi parhau hyd at neu y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw), ac fel y gellir cronni gwasanaeth cyfrifadwy, ynghyd â thalu buddion pensiwn, mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw. Hefyd, mae angen i ni ddiwygio'r meini prawf aelodaeth ar gyfer yr FPJPS er mwyn adlewyrchu dyfarniad *Miller*.

Ar 24 Mehefin 2020 fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn ymwneud â chynigion ein rhwymedi.

Gan fod yr FPJPS wedi'i gynllunio i adlewyrchu cyn belled ag y bo modd y cynllun ar gyfer barnwyr cyflogedig a sefydlwyd dan Ddeddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol 1993 (JUPRA), esboniwn yn y ddogfen ymgynghori y gellir ymestyn darpariaethau presennol yr FPJPS i gwmpasu'r cyfnod llawn y gallai barnwr cyflogedig perthnasol fod wedi bod yn aelod o JUPRA, h.y. o 31 Mawrth 1995 hyd at 31 Mawrth 2015.

Ar gyfer gwasanaeth cyn 31 Mawrth 1995, cynigiwn y dylid diwygio'r FPJPS er mwyn darparu hawl pensiwn *pro rata* yn seiliedig ar y buddion a oedd ar gael i farnwyr cyflogedig mewn cynlluniau barnwrol ar yr adeg berthnasol. Pan fyddai'r barnwr cyflogedig wedi bod yn aelod o gynllun y gwasanaeth sifil, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gynllun cydweddol, cynigiwn y dylid rhoi credyd gwasanaeth yn yr FPJPS i ddeiliaid swyddi barnwrol y talwyd ffi iddynt ar gyfer y cyfnod rhwng eu penodiad a'r adeg yr enillodd y barnwr cyflogedig yr hawl i ddod yn aelod o gynllun pensiwn barnwrol.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys cynigion i ddiweddaru'r rhestr o swyddi barnwrol cymwys yn yr atodlen o swyddi y telir ffi amdanynt yn y Rheoliadau FPJPS.

Mae ein cynigion yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol yng ngoleuni *O'Brien 2*, *Miller* ac ymgyfreitha cysylltiedig arall, ond efallai y byddant yn newid ar sail ymgyfreitha sydd ar y gweill.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cawsom 106 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn gefnogol i'n newidiadau arfaethedig i'r FPJPS. Wrth fwrw ymlaen â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried materion penodol a grybwyllwyd.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynglŷn â chymhwystra am fuddion pensiwn o'r fath. Rydym yn bendant y dylai deiliaid swyddi y telir ffi iddynt fod yn gymwys i gael buddion pan fo modd pennu barnwr cyflogedig priodol sy'n gymwys i gael buddion pensiwn barnwrol. Fel rhan o'r broses hon ar gyfer penderfynu ar gymhwystra, mewn rhai achosion bydd yn briodol ystyried ffactorau fel penodiadau gan yr Arglwydd Ganghellor neu ofyniad am gymhwyster cyfreithiol.

Fe wnaeth yr ymatebwyr gefnogi'r posibilrwydd o gynnwys cyfleuster yn yr FPJPS i gyfnewid pensiynau bach yn swm ariannol, a elwir yn gyfnewidiad bychan, a bwriadwn fwrw ymlaen â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, mae yna nifer o faterion pwysig y mae angen eu hystyried ymhellach. Nodwn y rhain, ynghyd â'r camau nesaf arfaethedig, yn ein hymateb i Gwestiwn 2 yr ymgynghoriad, isod.

Caiff materion eraill a grybwyllwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu trafod yn llawnach ym mhrif adran y ddogfen hon.

## Y cyd-destun ehangach: cynigion eraill yn ymwneud â pholisi pensiynau barnwrol

Ym mis Gorffennaf 2020 fe wnaethom gyhoeddi mwy o gynigion a chanddynt oblygiadau i drefniadau pensiwn barnwrol:

- Ymateb arfaethedig i *McCloud* – ymdrin â'r gwahaniaethu a nodir yn achos *McCloud [2018] EWCA Civ 2844*. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori ar:

  https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-the-proposed-response-to-mccloud

- Diwygio'r cynllun pensiwn barnwrol yn y dyfodol – cynigion ar gyfer cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig i ymdrin â materion yn ymwneud â recriwtio a dal gafael ar staff. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori ar:

  https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-a-reformed-judicial-pension-scheme

- Oedran ymddeol gorfodol – opsiynau'n ymwneud â newid yr oedran ymddeol gorfodol i ddeiliaid swyddi barnwrol. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori ar:

  https://www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-judicial-mandatory-retirement-age

Disgwyliwn gyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriadau hyn yn gynnar yn 2021.

## Y camau nesaf a'r amseru

Bwriadwn osod rheoliadau yn gynnar yn 2022 er mwyn i'r newidiadau i'r FPJPS ar gyfer cyflwyno rhwymedi *O'Brien 2/Miller* allu dod i rym ym mis Ebrill 2022.

Ar ôl i'r newidiadau hyn ddod i rym, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cysylltu â phob barnwr ymddeoledig y talwyd ffi iddo ac sy'n gymwys i gael pensiwn diwygiedig. Yn y cyfamser, os bydd barnwyr y talwyd ffi iddynt o'r farn fod ganddynt hawliad, cânt eu gwahodd i gysylltu â Thîm Hawliadau Barnwrol yr adran (os nad ydynt wedi gwneud hyn eisoes). Dylent e-bostio JudicialClaimsTeam@justice.gov.uk, gan anfon cofnodion o'u gwasanaeth y talwyd ffi amdano cyn 7 Ebrill 2000 pan fo modd.

## Trefniadau dros dro ar gyfer asesu hawliadau a thaliadau yn lle buddion pensiwn

O ganlyniad i *O'Brien 2* a *Miller*, mae yna oddeutu 4,600 o farnwyr a chanddynt hawliadau newydd neu ychwanegol ar gyfer buddion pensiwn am wasanaeth y talwyd ffi amdano. Mae'r Tîm Hawliadau Barnwrol yng nghanol y broses o gytuno ar gofnodion gwasanaeth gyda'r barnwyr hyn.

Fel mesur dros dro, wrth aros am y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i'r FPJPS, rydym wedi dechrau gwneud taliadau yn lle pensiwn i farnwyr sydd wedi ymddeol a dibynyddion yn y cohort hwn, yn cynnwys ôl-daliadau ar ffurf cyfandaliadau pan fo hynny'n briodol. Byddwn yn parhau i wneud hyn hyd nes y daw'r newidiadau i'r FPJPS i rym.

Rydym wedi bod yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Tribiwnlys Cyflogaeth ynglŷn â'r gwaith hwn.